SFJBG301

# Gwerthuso ansawdd gweithgareddau sy’n mynd i’r afael cham-drin domestig a thrais rhywiol

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â’ch gallu i fonitro a gwerthuso ansawdd gweithgareddau, mentrau a rhaglenni gwaith sy’n ceisio mynd i’r afael â cham-drin domestig a thrais rhywiol, a all gynnwys y cymorth sy’n cael ei ddarparu i unigolion.

Fel rhan o’r safon hon, bydd disgwyl i chi gynnwys unigolion yn y broses fonitro a gwerthuso, ynghyd ag unrhyw gydweithwyr ac asiantaethau eraill sy’n ymwneud â’r gwaith sy’n cael ei fonitro.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi amcanion cytunedig ar gyfer gweithgareddau eich sefydliad sy'n mynd i'r afael â cham-drin domestig neu drais rhywiol
2. dewis meini prawf i werthuso deilliannau ac allbynnau gweithgareddau y mae eich sefydliad yn eu darparu i unigolion
3. nodi dulliau i fonitro cynnydd yn erbyn amcanion a gweithgareddau sy'n mynd i'r afael â cham-drin domestig neu drais rhywiol
4. monitro'r gweithgareddau a'r cymorth y mae eich sefydliad yn eu darparu i unigolion, yn unol â dulliau a meini prawf cytunedig
5. nodi materion sy'n effeithio ar gynnydd gweithgareddau a chymorth i unigolion, yn unol â dulliau monitro a meini prawf gwerthuso cytunedig
6. mynd i'r afael â materion a nodwyd sy'n effeithio ar gynnydd gweithgareddau, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
7. archwilio amgyffredion unigolion am ansawdd y cymorth sy'n cael ei ddarparu gan eich sefydliad
8. cefnogi pobl eraill sy'n ymwneud â chyflwyno gweithgareddau a rhaglenni i roi adborth ar gynnydd yn erbyn yr amcanion cytunedig
9. cyfathrebu â phobl eraill mewn ffyrdd sy'n cydnabod arbenigedd a chyfraniad pobl eraill ac sy'n cydnabod eu rôl
10. gydag eraill, adolygu'r deilliannau a gafwyd o weithgareddau gydag unigolion yn unol ag amcanion, dulliau monitro a meini prawf gwerthuso cytunedig
11. archwilio'r deilliannau a gyflawnwyd gydag unigolion yn erbyn amcanion a meini prawf gwerthuso cytunedig
12. nodi camau gweithredu a dulliau yn y dyfodol i fynd i'r afael â materion a effeithiodd ar lwyddiant gweithgareddau
13. darparu gwybodaeth i bobl eraill am weithgareddau effeithiol, gan gynnwys: • amlinellu natur a diben y gweithgareddau
    • pam a sut y cyflawnodd gweithgareddau eu hamcanion
14. defnyddio gwybodaeth am weithgareddau effeithiol i gytuno ag eraill ar sut y gellid gwella gweithgareddau yn y dyfodol
15. cynnal cofnodion cywir a chyfredol yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
16. cynnal cyfrinachedd yn unol â gofynion deddfwriaethol a pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion cyfreithiol, sefydliadol a pholisi sy’n berthnasol i’ch rôl chi, i rôl pobl eraill yn eich sefydliad ac i’r gweithgareddau sy’n cael eu cyflawni
2. y canllawiau, y polisïau a’r gweithdrefnau lleol a chenedlaethol perthnasol sydd ar gael a sut a phryd y dylid troi atynt
3. yr ystod o asiantaethau a gwasanaethau y gallech weithio gyda nhw
4. sut mae gwasanaethau asiantaethau a sefydliadau eraill yn perthyn i’r gwasanaethau y mae eich sefydliad chi yn eu darparu
5. beth yw cam-drin domestig a thrais a cham-drin rhywiol, a pha mor gyffredin ydyw yn eich cymuned leol
6. arwyddion o gam-drin a’r dulliau y mae camdrinwyr yn eu defnyddio i ennill grym a rheolaeth
7. gwahanol ymatebion i drawma a’u heffaith
8. sut mae croestoriadedd yn effeithio ar brofiad unigolyn o wasanaethau
9. mathau o wybodaeth a chymorth y mae pobl sydd wedi’u heffeithio gan gam-drin domestig neu drais rhywiol yn eu ceisio
10. ffynonellau gwybodaeth a chymorth sydd ar gael i bobl sydd wedi’u heffeithio gan gam-drin domestig neu drais rhywiol
11. mentrau cenedlaethol a lleol perthnasol a’u heffaith ar fonitro gwasanaethau i fynd i’r afael â cham-drin domestig a thrais rhywiol yn eich cymuned
12. pwysigrwydd monitro a gwerthuso effaith gweithgareddau sy’n anelu at fynd i’r afael â cham-drin domestig a thrais rhywiol
13. dulliau o fonitro a gwerthuso gweithgareddau perthnasol, gan gynnwys ffactorau allweddol i’w hystyried
14. pwysigrwydd cynnwys unigolion, cydweithwyr ac asiantaethau eraill mewn gweithgareddau
15. dulliau o sicrhau bod pobl eraill yn ymwneud â monitro a gwerthuso
16. sut i osod amcanion a meini prawf i werthuso llwyddiant gweithgareddau sydd wedi’u hanelu at fynd i’r afael â cham-drin domestig a thrais rhywiol
17. ffynonellau gwybodaeth berthnasol sy’n briodol i fonitro gweithgareddau sy’n anelu at fynd i’r afael â cham-drin domestig a thrais rhywiol, a sut i gael at y rhain
18. dulliau o wirio a chadarnhau’r wybodaeth sy’n angenrheidiol
19. sut i wahaniaethu rhwng tystiolaeth a welwyd yn uniongyrchol, tystiolaeth o ffynonellau dibynadwy ac adroddiadau ail-law

20. sut i hyrwyddo llwyddiant gweithgareddau a rhaglenni ar gyfer mynd i’r afael â cham-drin domestig a thrais rhywiol
21. pwysigrwydd rhannu arfer effeithiol gyda phobl eraill a dulliau o gyflawni hyn

## Geirfa

**Cam-drin Domestig**
Unrhyw ymddygiad neu batrwm o ymddygiad rheolaethol, ymddygiad gorfodaethol, ymddygiad bygythiol, trais neu gamdriniaeth rhwng pobl sy’n 16 oed neu’n hŷn sydd, neu a fu, yn bartneriaid clos neu’n aelodau teulu, ni waeth beth yw eu rhywedd neu eu rhywioldeb.

Gall y cam-drin gynnwys, ond nid yw’n gyfyngedig i, gyfuniad o gam-drin seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol ac emosiynol.

Mae’r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys trais ar sail ‘anrhydedd’ fel y’i gelwir, anffurfio organau cenhedlu benywod a phriodas dan orfod. Mae plant hefyd yn cael profiad o gam-drin domestig pan fyddant yn dyst i gam-drin domestig.

**Croestoriadedd**
Natur gysylltiedig categoreiddiadau cymdeithasol fel hil, dosbarth a rhywedd, yr ystyrir eu bod yn creu systemau gwahaniaethu neu anfantais sy’n gorgyffwrdd ac sy’n gyd-ddibynnol

**Dull dan arweiniad anghenion**
Ffordd o weithio i sicrhau bod y cymorth sy’n cael ei gynnig i rywun sy’n cael profiad o gam-drin domestig yn cael ei gynnig ar sail eu hanghenion a’i fod yn adeiladu ar eu cryfderau a’r adnoddau sydd ar gael iddynt. Mae’n cydnabod y wybodaeth sydd ganddynt am yr unigolyn sy’n defnyddio camdriniaeth. Gyda’r hawliau, gall y sawl nad yw’n cam-drin feithrin ei annibyniaeth, dod dros y trawma a gafodd a chael ei fywyd yn ôl, a dod o hyd i newid sy’n para.

**Pobl mewn perygl**
Unigolyn y diffinnir bod arno angen gofal, cymorth neu amddiffyniad arbennig oherwydd oedran, anabledd, risg cam-drin neu esgeulustod

**Cam-drin Rhywiol**
Ymddygiad rhywiol digroeso gan un person tuag at berson arall. Mae hwn yn aml yn cael ei gyflawni trwy rym neu trwy gymryd mantais ar y person arall. Defnyddir y term hwn yn gyffredinol pan fydd yr ymddygiad rhywiol yn rheolaidd neu’n digwydd dros gyfnod estynedig.

**Ymosodiad Rhywiol**
Unrhyw ymddygiad rhywiol digroeso nad yw person wedi cydsynio iddo. Gall hyn

amrywio o drais i voyeuriaeth i orchestu, i gyffwrdd digroeso dros neu o dan ddillad.

**Trais Rhywiol**
Yn debyg o ran ei natur i gam-drin rhywiol, ond defnyddir y term hwn yn fwy aml i ddisgrifio digwyddiadau byr neu unigol, megis ymosodiad rhywiol gan ddieithryn.

**Dull seiliedig ar gryfderau**
Dyma ddull gweithio gydag unigolion sy’n cydnabod eu cryfder i oresgyn eu profiadau

**Ystyriol o Drawma**
Ymagwedd at ymyriadau iechyd a gofal sydd â’i sail mewn deall bod amlygiad i drawma’n gallu effeithio ar unigolyn. Bydd ymarferwyr yn gweithio mewn ffyrdd nad ydynt yn ailachosi trawma yn anfwriadol i’r unigolyn, ac mae pwyslais ar ddiogelwch, dewis, cydweithrediad a grymuso’r cleient.

Gwerthuso ansawdd gweithgareddau sy'n mynd i'r afael cham-drin domestig a thrais rhywiol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Fersiwn rhif** | 3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 26 Mai 2023 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Mai 2028 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Justice |
| **RCU gwreiddiol** | SFJBG301 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithiwr Lloches, Gweithiwr Argyfwng, Cynghorydd Annibynnol Trais Domestig (IDVA) |
| **Cyfres/Set** | Atal a mynd i'r afael â cham-drin domestig a thrais rhywiol |
| **Geiriau Allweddol** | rhywiol; unigolyn; monitro; gwerthuso; ansawdd; rhaglenni; mentrau; gwasanaethau; gweithgareddau |